



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol

Symud Cymru Ymlaen

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau ffyniant i bawb

Mae ffyniant yn golygu mwy na chyfoeth materol – mae'n golygu bod pob un ohonom yn cael bywyd o ansawdd da, ac yn byw mewn cymunedau cryf a diogel.

Ein nod hirdymor yw creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, sy'n iach ac egniol, sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Mae ein Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, yn nodi'r prif ymrwymadau y byddwn yn eu gwireddu rhwng nawr a 2021.

Mae'r strategaeth hon yn edrych ar yr ymrwymadau allweddol hynny, yn eu rhoi mewn cyd-destun hirdymor, ac yn amlinellu sut y maent yn cyd-fynd â'r gwaith y mae gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru yn ei wneud i osod y sylfeini er mwyn sicrhau ffyniant i bawb.

Mae'n cydnabod bod sut rydym yn mynd ati i gyflawni yr un mor bwysig â beth rydym yn ei gyflawni, ac er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl, bod angen inni wneud pethau'n wahanol a chynnwys pobl wrth inni fynd ati i lunio'r gwasanaethau y maen nhw'n eu defnyddio o ddydd i ddydd.

Rydym wedi paratoi'r ddogfen fer hon, sydd â ffocws pendant, er mwyn rhoi cyfeiriad gwell i egni ac adnoddau'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan. Drwy weithio gyda phobl Cymru, byddwn yn ymdrechu ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r genedl. Bydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y strategaeth yn cael eu cyflawni erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad, ac mae eraill yn golygu y bydd gofyn gweithio ar lefel lawer mwy cydweithredol ac integredig, gan feddwl am atebion ar gyfer y dyfodol – gyda'n gilydd.

Bydd hyn yn golygu bod angen i ni a'n partneriaid weithio mewn ffordd gwbl wahanol. Er bod y llywodraeth yn gymhleth, mae'n nod yn un syml – helpu a chefnogi pawb i fyw bywydau iach, ffyniannus a gwerth chweil. Mae Cymru yn yr 21ain Ganrif yn lle llawn amrywiaeth – mae anghenion pobl yn amrywio ar draws y wlad ac ar adegau gwahanol o'u bywydau.

Fel cenedl, mae Cymru wedi dod yn bell ers datganoli ym 1999 – gan fagu hyder ac arddel hunaniaeth Gymreig arbennig mewn ffordd a fyddai wedi bod yn amhosibl cyn hynny.

Mae llawer y gallwn fod yn falch ohono, ond mae llawer o heriau yn ein hwynebu o hyd, a dim ond drwy fod yn onest amdanynt y gallwn fynd i'r afael â nhw.

Crëwyd a chefnogwyd bron 150,000 o swyddi newydd gennym yn ystod tymor diwethaf y llywodraeth. Er hynny, mae gormod o bobl o hyd heb gyflogaeth ystyrlon. Mae hynny'n cael effaith ar eu hiechyd, ac yn eu hatal rhag gwireddu eu llawn botensial. Weithiau mae hyn y tu hwnt i'w rheolaeth, ond dyna pam mae angen i'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan ymdrechu i helpu pobl ym mhob cwr o Gymru i ffynnu.

Mae'r GIG yng Nghymru yn cyflogi mwy o feddygon a nyrsys, yn trin mwy o bobl, ac mae pobl yn byw yn hirach. Ond mae sgil-ffeithiau ystyfnig afiechydon yn amharu ar fywydau nifer o bobl. Mae'r effaith ar bobl, teuluoedd a'r economi yn eang. Mae'n rhaid inni dorri'r cylch, a helpu pawb i fyw bywydau hirach ac iachach.

Mae canlyniadau disgyblion yn gwella, ac mae'r bwch rhwng perfformiad y plant cyfoethocaf a'r plant tlotaf yn lleihau. Mae nifer o blant, a nifer anghymesur o'r rheini o gefndiroedd difreintiedig, yn gadael yr ysgol heb y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gael swydd, ac mae hynny'n annerbyniol. Mae angen inni feithrin uchelgais i ddysgu ym mhob un o'n pobl ifanc, a phaidio â gadael neb ar ôl.

Mae gennym hanes cryf o wella cyfraddau ailgylchu, sy'n ein rhoi ar y brig yn y DU, yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r newid yn yr hinsawdd barhau, ac mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid inni leihau allyriadau carbon ymhellach, gan fynd ati i reoli'r peryglon i iechyd, i lesiant ac i gymunedau yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Er bod Cymru yn gyffredinol wedi codi o'r dirwasgiad, mae rhai ardaloedd o'r wlad yn dal heb weld y manteision llawn a ddaw yn sgil twf. Mae hyn yn golygu bod rhai cymunedau yn dal i'w chael yn anodd ffynnu, a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth rannau eraill o Gymru. Mae gan y llywodraeth rôl allweddol i'w chwarae wrth ysgogi twf economaidd yn yr ardaloedd hynny sydd â'r anghenion mwyaf.

Mae'n cymunedau'n parhau i fod yn gaffaeliaid i'n cenedl, a byddwn yn buddsoddi i'w hailgysylltu, yn ffisegol ac yn ddigidol, er mwyn creu cenedl sy'n fwy unedig a chysylltiedig.

Gwyddom fod cyflogaeth ddiogel yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o fwynhau iechyd da, bod addysg yn dylanwadu ar gyfleoedd pobl o ran cyflogaeth a bod pobl yn gwerthfawrogi cryfder ac ansawdd eu cymunedau lleol.

Yn sail i'r cyfan hyn y mae ffactorau cymhleth a rhyngddibynnol. I adlewyrchu hynny, rydym wedi datblygu'r strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig ar y pethau a wnawn sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl, gan gydnabod mai dim ond drwy weithio mewn ffordd wahanol y gall y llywodraeth helpu pobl i gyflawni'r nodau hyn.

Themâu Allweddol

Yn *Symud Cymru Ymlaen*, aed ati i egluro addewidion y llywodraeth ar gyfer tymor presennol y Cynulliad. Dros bedair pennod, amlinellodd y prif ymrwymadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru, er gwaetha'r effaith y mae degawd o doriadau wedi'i chael ar gyllideb Cymru, ac effaith ansicr Brexit.

Mae pedair thema allweddol y strategaeth hon yr un fath â'r rheini yn *Symud Cymru Ymlaen*. Rydym wedi amlinellu'n gweledigaeth ar gyfer pob thema, gan ddangos sut y byddant yn cyfrannu at sicrhau ffyniant i bawb, a sut y gall cyflawni mewn ffordd fwy integredig a chydweithredol wella llesiant pobl Cymru.

Ffyniannus a Diogel – Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl. Byddwn yn galluogi pobl i wireddu eu huchelgais ac i wella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy. Byddwn yn chwalu'r rhwystrau y mae nifer yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i swydd, ac yn creu'r amgylchedd iawn i fusnesau dyfu a ffynnu.

Iach ac Egniol – Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i wireddu'n huchelgais i sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau mawr i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau.

Uchelgeisiol ac yn Dysgu – Ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod. Os ydym am weld Cymru yn ffynnu, mae angen pobl greadigol, sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu, felly bydd ein haddysg o'r oedran cynharaf un yn sylfaen i oes o ddysgu a chyflawni.

Unedig a Chysylltiedig – Ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd. Rydym yn adeiladu'r cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu, ac inni ddod yn genedl fwyfwy hyderus

Meysydd Blaenoriaeth

Wrth ddatblygu'r strategaeth, nodwyd pum maes oedd â'r potensial mwyaf i gyfrannu at ffyniant a llesiant hirdymor. Maent yn adlewyrchu'r adegau hynny ym mywydau pobl pan fo angen y cymorth mwyaf arnynt, a phan all y cymorth cywir gael effaith ddramatig ar drywydd eu bywydau.

Maent yn feysydd blaenoriaeth lle ceir tystiolaeth bod ymyrraeth gynnar – mynd i'r afael â'r achosion creiddiol, yn hytrach na thrin y symptomau – yn talu ar ei ganfed. Dim ond os bydd gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb mewn modd cwbl gydgysylltiedig y gellir atal problemau rhag gwaethygu; yn rhy aml mae rhwystrau rhwng gwasanaethau a sefydliadau gwahanol yn ein hatal rhag gweithio mewn ffordd wirioneddol ataliol.

Os ydym am wireddu llawn botensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sicrhau canlyniadau hirdymor, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio a'u bod yn cydweithredu, a'n bod yn ymyrryd yn gynnar ac yn mabwysiadu ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hwn yn newid mawr, ac felly rydym wedi penderfynu canolbwyntio'n benodol ar bum maes blaenoriaeth lle y credwn, drwy wella sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, y gellir cael yr effaith gychwynnol fwyaf, gan fraenaru'r tir ar gyfer gamau pellach dros y tymor hwy.

Y Blynyddoedd Cynnar: mae profiadau unigolyn yn ystod ei blentyndod yn chwarae rhan bwysig wrth lunio ei ddyfodol, ac maent yn hollbwysig

wrth ystyried pa mor debygol ydyw o fynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn.

Tai: sylfaen byw'n dda yw cael cartref fforddiadwy o ansawdd da sy'n dod ag ystod eang o fanteision o ran iechyd, dysgu a ffyniant.

Gofal Cymdeithasol: mae gofal tosturiol ac urddasol yn rhan hanfodol o gymunedau cryf, yn sicrhau y gall pobl fod yn iach ac yn annibynnol am gyfnod hwy, ac mae'n sector economaidd pwysig ynnddo'i hun.

Iechyd Meddwl: bydd un o bob pedwar person yng Nghymru yn profi salwch meddwl ar ryw adeg yn ei fywyd. Mewn nifer o achosion, mae cael y driniaeth gywir yn gynnar, ynghyd â bod yn fwy ymwybodol o gyflyrau, yn gallu atal effeithiau niweidiol yn yr hirdymor.

Sgiliau a Chyflogadwyedd: y gorau yw sgiliau pobl, y mwyaf o obaith sydd ganddynt i gael cyflogaeth deg, ddiogel a gwerth chweil. Y cryfaf yw sylfaen sgiliau Cymru, y mwyaf o obaith sydd gennym i ddenu busnesau newydd a helpu'r rhai presennol i dyfu er mwyn gwella ffyniant.

Ond nid dyma ben draw gweithgarwch y llywodraeth, ac ni fyddwn yn colli golwg ar sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhedeg o ddydd i ddydd, gan eu haddasu a'u gwella i adlewyrchu'r ffordd newydd hon o weithio.

Gweithio mewn ffordd wahanol

Mae'r strategaeth hon yn llawer mwy na rhestr o'r camau y byddwn yn eu cymryd. Mae'n amlinellu ffordd newydd o weithio, un sy'n cydnabod yr heriau rydym yn eu hwynebu heddiw, y Gymru a garem ei gweld yn y dyfodol, a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn ei gwireddu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod y cyfraniad y gall pawb ei wneud ac mae'n rhoi'r sylfaen inni fedru ysgogi gwasanaeth cyhoeddus o fath gwahanol yng Nghymru.

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn y sector gwirfoddol yn awyddus i weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion cyffredin, i ganolbwyntio ar anghenion pobl, ar bob adeg o'u bywydau ac ym mhob rhan o Gymru.

Gwnaed nifer o ddatblygiadau eisoes sy'n ein helpu i weithio yn y ffordd hon, fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dwyn ynghyd bawb sy'n darparu gwasanaethau mewn cymunedau, i weithio gyda nhw i ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol, a phenderfynu ar sut orau i'w darparu.

Drwy Tasglu'r Cymoedd, rydym yn meithrin dealltwriaeth gliriach a dyfnach o'r hyn y mae pobl wir am ei gael gan eu gwasanaethau cyhoeddus, a sut y gallwn ymateb i'r pethau sy'n gallu llesteirio'r gwasanaethau hynny.

Yn y pen draw, mae'r Tasglu yn edrych ar sut y gallwn fynd ati gyda'n gilydd i gefnogi dyheadau pobl, yn un o ardaloedd mwyaf anghenus Cymru – a sut y dylem ddarparu gwasanaethau yn lleol ac mewn modd di-dor. Byddwn yn mabwysiadu'r negeseuon hyn ar lefel ehangach wrth inni wireddu'r strategaeth hon.

Bydd awdurdodau lleol yn bartneriaid pwysig wrth gyflawni'r agenda hon. Bydd gwireddu ein huchelgais ar gyfer Cymru yn gofyn am berthynas wahanol, nid yn unig rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ond hefyd rhwng yr awdurdodau lleol eu hunain. Dim ond drwy weithio'n agosach, ar sail ranbarthol ac mewn ffordd gyson, y gallwn gynnal cydnerthedd gwasanaethau yn y dyfodol a'u helpu i ymateb i anghenion.

Bydd canolbwyntio ar y pum maes blaenoriaeth yn ein helpu i integreiddio'r gwasanaethau a'r rhaglenni hyn yn well, ac i bennu cyfeiriad clir ar gyfer ein partneriaid. Ar lefel ehangach, gallwn fanteisio ar y pwerau ysgogi sydd gennym fel llywodraeth a'u defnyddio i gyflawni ein nod creiddiol, sef sicrhau ffyniant i bawb: cynllunio, buddsoddi mewn seilwaith, caffael, a phwerau trethu.


Mae **penderfyniadau cynllunio** yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd yr unigolyn. Maent yn penderfynu ble y caiff cartrefi eu hadeiladu, ble y caiff gwasanaethau eu darparu, ac ar ansawdd yr amgylchedd lleol; ac maent yn hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a mynediad at fannau agored. Rhaid wrth system gynllunio briodol er mwyn inni fedru cyflawni'r amcanion sydd gennym yn y strategaeth hon.

Mae sut rydym yn mynd ati i gynllunio'n **penderfyniadau buddsoddi cyfalaf** yn gallu cael effaith fawr ar yr economi. Mae hefyd yn helpu sefydliadau gwahanol i ddarparu eu gwasanaethau mewn un lle, ac yn golygu bod llai o angen i unigolyn deithio. Drwy'r strategaeth hon ar ei hyd, rydym yn ymrwymo i gyd-leoli gwasanaethau, a dim ond drwy integreiddio'r ffordd rydym yn gwneud ein penderfyniadau buddsoddi y gall hynny ddigwydd.

Bob blwyddyn, mae gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn gwario £6 biliwn ar **gaffael** cynhyrchion a gwasanaethau, ac mae mwy o'r arian hwn yn cael ei wario yng Nghymru nag erioed o'r blaen. Drwy gynllunio'n well a deall pa gynhyrchion a gwasanaethau a brynir dro ar ôl tro, gallwn gefnogi busnesau bach a chanolig i ennill mwy o'r contractau hyn. Bydd y manteision economaidd yn aros yng Nghymru, ond gall ein pŵer prynu fod yn sbardun i greu mwy o werth ychwanegol i fusnesau sy'n perfformio'n dda, a hefyd i'w cadwyni cyflenwi, sy'n gallu allforio cynhyrchion ymhellach.

Bydd **pwerau newydd ar gyfer codi ac amrywio trethi** i Gymru yn cryfhau'r cysylltiad rhwng twf economaidd a chyllid ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru. Bydd y pwerau hynny'n cynnig ffyrdd newydd i'r llywodraeth wireddu ei huchelgais ar gyfer Cymru, ond bydd yn bwysig ein bod yn eu defnyddio mewn ffordd a fydd yn helpu busnesu i ffynnu, ac a fydd yn deg i bawb.

Yr Amcanion Llesiant



Y Themâu Allweddol

'Ffyniant i Bawb'

- y strategaeth genedlaethol

Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni dros Gymru yn ystod y tymor hwn - ac yn gosod sylfeini hirdymor ar gyfer y dyfodol.

'Symud Cymru Ymlaen'

- Y Rhaglen Lywodraethu 2016-2021

Mae'r rhaglen yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei gyflawni dros Gymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Ddeddf yn nodi'r angen am ffocws hirdymor, a phum 'ffordd o weithio' er mwyn rhoi arweiniad i wasanaethau cyhoeddus Cymru wrth iddynt gyflawni dros bobl Cymru.

Ffyniannus a Diogel

Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl, gan gynnig cyfleoedd i bawb a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. O wneud hynny, gall pobl wireddu eu huchelgais a gwella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy. Un o rolau hanfodol y llywodraeth yw chwalu'r rhwystrau y mae nifer yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i swydd, a chreu'r amgylchedd iawn i fusnesau dyfu a ffynnu.

Ni ddylem edrych ar dwf economaidd ar ei ben ei hun. Mae'n sail i'r dyheadau sydd gennym ar gyfer pob person a phob cymuned ledled y wlad. Mae cyflogaeth ddiogel yn allweddol ar gyfer iechyd gwell a chyfleoedd gwell mewn bywyd.

Mae twf economaidd yn creu'r trethi sy'n caniatáu i wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel gael eu darparu, ac sy'n helpu cymunedau i ffynnu.

Mae gwella cynhyrchiant a chystadleurwydd yn ganolog i ddyfodol ein heconomi. Bydd sgiliau o ansawdd uchel, rôl allweddol dinasoedd wrth sbarduno twf, a'r seilwaith digidol a thrafnidiaeth gywir oll yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn.

Nid yw'r holl ysgogjadau polisi sy'n effeithio ar yr economi yn nwylo Lywodraeth Cymru. Er hynny, ein nod canolog yw sicrhau ffyniant i bawb, ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd fwy integredig a phenodol i gael yr effaith fwyaf bosibl. Mae hynny'n golygu manteisio ar ymdrechion y llywodraeth gyfan ym meysydd iechyd, addysg, a'r amgylchedd, yn ogystal â datblygu economaidd.

Mae gan rannau gwahanol o Gymru gryfderau economaidd gwahanol, ac felly mae angen inni hyrwyddo twf a datblygiad mewn ffordd sy'n adlewyrchu hynny.

Byddwn yn cefnogi busnesau heddiw i weithio'n fwy effeithiol a chynaliadwy, gan sicrhau ein bod yn creu amgylchedd a fydd yn meithrin busnesau'r dyfodol, gan adeiladu ar adnoddau dynol, creadigol a naturiol Cymru, a chan wella ein cydnerthedd economaidd ac amgylcheddol. Mae creu economi gynaliadwy yn adlewyrchu pa mor bwysig yw hi ein bod yn gadael gwaddol cryf ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Felly, ein tri amcan yw rhoi'r gefnogaeth gywir i bobl a busnesau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg, a sbarduno twf cynaliadwy.

Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant

Byddwn yn galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i gael y swyddi y maent yn dymuno'u cael, gan helpu busnesau i ddechrau, i arloesi ac i dyfu, a chreu cyflogaeth ddiogel a da.

Gall pob un ohonom elwa ar economi sy'n tyfu ac yn ffynnu yng Nghymru, ac mae gan fusnesau, unigolion a gwasanaethau cyhoeddus i gyd rôl hanfodol – a chyfartal – i'w chwarae wrth gyflawni hynny. Byddwn yn ffurfioli dull partneriaeth newydd o weithio a fydd yn nodi'n glir yr hyn y gall busnesau ei ddisgwyl gennym, a'r hyn y gallwn ni fel llywodraeth ei ddisgwyl ganddyn nhw hefyd.

Mae'r ffaith ein bod yn gryf o blaid busnesau yn golygu ein bod am gefnogi busnesau sydd â photensial i dyfu go iawn, drwy roi cefnogaeth benodol uniongyrchol i fusnesau a thrwy ddarparu rhaglenni sgiliau o ansawdd. Byddwn hefyd yn defnyddio'n pŵer gwario i fuddsoddi mewn seilwaith ac i gaffael gwasanaethau cyhoeddus er budd busnesau yng Nghymru.

Rydym am i fusnesau, felly, weithio gyda ni ac i fuddsoddi yn eu datblygiad nhw eu hunain, ac yn natblygiad eu gweithlu, a thrin eu gweithwyr yn deg, gan gyfrannu at y gymuned ehangach.

Bydd cydnerthedd economaidd yn arbennig o bwysig dros y blynyddoedd nesaf. Gan ddiybnu ar delerau'n hymadawiad, mae'n debygol y bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar economi a busnesau Cymru.

Gallai rhai sectorau a rhanbarthau gael eu heffeithio'n fawr gan faterion megis mynediad i'r farchnad a mudo, a dyna pam mae'n hanfodol eu bod yn cael help llaw i addasu'n gyflym i amodau economaidd newydd ar ôl Brexit, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddod o hyd i farchnadoedd newydd.

Byddwn yn:

- ymrwymo i **'Gontract Economaidd'** newydd rhwng busnesau a'r llywodraeth i ysgogi twf, i wella cynhyrchiant, ac i wneud Cymru yn lle mwy teg a chystadleuol.
- symleiddio ac ad-drefnu'r **ystod o gymorth ariannol** a gynigir i gwmnïau, gan sicrhau ei fod yn glir, yn hawdd ei ddeall ac yn ymatebol.
- datblygu **fframwaith rheoleiddio modern** drwy reoleiddio doethach i sicrhau ein bod yn gystadleuol a'n bod yn creu'r amgylchedd economaidd cywir i gwmnïau dyfu.
- sefydlu banc newydd, **Banc Datblygu Cymru**, gan helpu busnesau i gael gafael ar gyllid, ynghyd â gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel a chyngor ar reoli.
- sicrhau bod Cymru yn cael y **gwerth mwyaf posibl o'r gwaith caffael a wneir gan y gwasanaethau cyhoeddus**, gan sicrhau bod gweithwyr yn cael bargaen deg am waith a ariennir gan arian cyhoeddus.
- defnyddio'n cymorth busnes i **feithrin capasiti ac arloesedd yn ein busnesau cynhenid**, gan gynnwys cadwyni cyflenwi lleol, fel bod mwy yn cael ei gaffael oddi wrth fusnesau yng Nghymru.
- datblygu ymhellach **y cysylltiadau a'r ymwneud rhwng prifysgolion, diwydiant a'r GIG a gofal cymdeithasol** i ysgogi twf economaidd drwy ymchwil gymhwysol a thrwy arloesi.
- datblygu **cynllun cyflogadwyedd newydd i Gymru**, gan ganolbwyntio ar yr anghenion amrywiol sydd gan unigolion, ac ymateb i'r anghenion penodol sydd gan bob rhan o'r wlad o ran sgiliau.
- gweithredu'n cynllun i gynnig 30 awr o **addysg a gofal plant am ddim ar draws Cymru i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio**, a'i gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i swyddi a'u cadw.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg

Byddwn yn targedu ymyriadau at anghenion economaidd gwahanol pob rhanbarth yng Nghymru, gan sicrhau bod pob rhan o'r wlad yn elwa ar dwf, a chan hyrwyddo hawl pob gweithiwr i gael bargaen deg.

Rhaid inni ganolbwyntio ar gryfderau pob rhan o Gymru a'u defnyddio i sbarduno twf, gan sicrhau ein bod yn manteisio ar gyfleoedd newydd ac yn cefnogi canolfannau twf rhanbarthol cryfach.

Mae hyn yn gwneud synnwyr cymdeithasol yn ogystal â synnwyr economaidd, oherwydd bod anghydraddoldeb ac ansicrwydd rhanbarthol yn rhwystro ffyniant cenedlaethol; bydd gwneud Cymru yn lle tecach yn golygu bod ei heconomi'n gryfach ac yn fwy cydnerth.

Bydd y ffordd newydd hon o weithio, a fydd â ffocws rhanbarthol, yn cael ei hadlewyrchu ar draws pob rhan o'n gwaith, gan gynnwys diwygio llywodraeth leol. Bydd hefyd yn rhoi gwasanaethau cyhoeddus mewn gwell sefyllfa i fod yn bartner gweithredol gyda diwydiant ym mhob agwedd ar eu gwaith, o sgiliau i gynllunio, ac o gynllunio i drafnidiaeth.

Byddwn hefyd, drwy ein Comisiwn Gwaith Teg, yn hyrwyddo ffyniant i bawb drwy geisio gwella tâl ac amodau'r bobl hynny mewn swyddi ansicr â thâl isel.

Rhaid i'r prosiectau mawr cyffrous sydd yn yr arfaeth ar draws Cymru dros y blynyddoedd nesaf gynnig manteision sylweddol i'w rhanbarthau, a gadael gwaddol parhaol ar gyfer pobl, seilwaith ac economi'r ardaloedd hynny.

Byddwn yn:

- cyflwyno **model datblygu economaidd newydd ar sail ranbarthol**, gan weithio gyda phob rhanbarth i bennu ac ysgogi ei sectorau ei hun yn ôl ei gryfderau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddo.
- canolbwyntio ar **nifer llai o sectorau cenedlaethol** lle mae heriau neu gyfleoedd penodol ledled Cymru.
- cefnogi **busnesau gwledig i arallgyfeirio ac i fanteisio ar gadwyni cyflenwi**, gan gynnwys yr angen i gynyddu eu capasiti i brosesu ac ychwanegu mwy o werth.
- sicrhau bod olynnydd newydd 'gwnaed yng Nghymru' a ddaw yn lle cronfeydd strwythurol yr UE yn cael ei **integreiddio'n llawn â'n dull gweithredu cyffredinol** ac yn cynnig y gwerth ychwanegol mwyaf posibl i unigolion, i ranbarthau ac i Gymru gyfan.
- dylunio prosiectau seilwaith mawr Llywodraeth Cymru fel eu bod yn **uno gwasanaethau cyhoeddus a datblygiadau eraill, er mwyn sicrhau'r manteision rhanbarthol mwyaf posibl**.
- manteisio ar y **cyfleoedd a ddaw yn sgil prosiectau seilwaith mawr**, megis Wylfa Newydd a Morlyn Llanw Bae Abertawe.
- darparu cymorth mwy effeithiol ar gyfer datblygu **cadwyni cyflenwi a chlystyrau lleol**, fel bod gwerth economaidd yn cael ei gadw'n lleol, a bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn cael eu creu yn nes adref.
- cymryd y camau sydd eu hangen i **wneud Cymru yn wlad gwaith teg**, ac adeiladu ar waith ein Comisiwn Gwaith Teg.
- sicrhau bod pob busnes sy'n cyflenwi'r gwasanaeth cyhoeddus yn **ymrwymo i gyflogaeth foesebol**.

Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Byddwn yn meithrin ffyniant mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn cynnal amgylchedd naturiol prydferth Cymru, sy'n sicrhau bod y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol yn parhau i elwa, ac sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Mae cydnerthedd economaidd wrth wraidd pob uchelgais sydd gennym ar gyfer Cymru. Dim ond drwy arloesi y gall busnesau addasu a bod yn fwy cynhyrchiol a chynaliadwy. Ar yr un pryd, mae angen inni greu amgylchedd sy'n meithrin busnesau'r dyfodol, ac sy'n ymateb i'r angen i ddatblygu mwy ar yr economi carbon isel.

Un o brif asedau Cymru yw'n hadnoddau naturiol toreithiog sydd wedi mowldio'n heconomi dros ganrifoedd. Heddiw, mae'r adnoddau hynny'n cefnogi amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys diwydiant twristiaeth a sector hamdden bywiog, diwydiant amaethyddol sy'n cynnal cymunedau gwledig hyfyw, a sector bwyd a diod cynhenid o safon fyd-eang.

Ein nod yw manteisio ar y cyfleoedd economaidd a gynigir gan adnoddau naturiol Cymru, gan feithrin eu cydnerthedd i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol. Bydd cynhyrchu ynni carbon isel a gwneud mwy o ddefnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cynlluniau ynni cymunedol, yn fodd i leihau allyriadau carbon yn ogystal â bod o fudd i ardaloedd lleol.

Drwy ddefnyddio llai o ynni, gallwn leihau costau i fusnesau, ond gallwn hefyd arbed arian i aelwydydd. Mae gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai yn arwain at wella iechyd, yn creu swyddi ac yn cefnogi busnesau lleol.

Byddwn yn:

- cyflwyno **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** newydd, a fydd yn amlinellu cynllun defnydd tir 20 mlynedd i Gymru, yn llywio gwaith datblygu strategol, ac yn cael ei gefnogi gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.
- pennu **llwybr carbon isel gan roi eglurder a sicrwydd fel bod modd gweithredu a buddsoddi** yn yr economi carbon isel drwy osod targedau ar gyfer 2020, 2030 a 2040.
- cyflymu'r gwaith o **ddatgarboneiddio'n gwasanaethau cyhoeddus**, gan greu cyfleoedd newydd i fusnesau yng Nghymru wrth inni newid i economi carbon isel.
- sefydlu **proses cydsynio bwrpasol ar gyfer seilwaith** a fydd yn ymateb i anghenion busnesau a chymunedau, i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, ac i ddatgarboneiddio'n cyflenwad ynni.
- gosod y trywydd ar gyfer **economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon**, gan adeiladu ar ein llwyddiant o ran ailgylchu a lleihau'r effeithiau y mae cynhyrchiol a defnyddio adnoddau yn eu cael ar yr amgylchedd.
- cyflwyno **polisi amaethyddol a physgodfeydd i Gymru ar ôl gadael yr UE**, a fydd yn cael ei gynllunio ar y cyd â rhanddeiliaid, i adlewyrchu anghenion y sector amaethyddol a'r sector pysgodfeydd yn y Gymru fodern a rheoli'r effeithiau ar yr amgylchedd.
- gweithio gyda phawb a fydd yn cael eu heffeithio i baratoi ar gyfer byd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac **ar gyfer sector amaethyddol cadarn**.
- fel rhan o'n contract economaidd newydd, disgwyl i'r **busnesau hynny sy'n cael cymorth oddi wrthym ymrwymo i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd**.

Iach ac Egniöl

Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i wireddu'n huchelgais i sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau pwysig i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan wella profiad cleifion a llesiant y boblogaeth gyfan – gan roi cymaint o bwyslais ar gadw pobl yn ffit ac yn iach ag ar eu trin pan fyddant yn sâl.

Fel ar hyn o bryd, GIG Cymru fydd y maes unigol mwyaf y bydd y llywodraeth yn gwario arno, gan adlewyrchu pa mor werthfawr ydyw i'r cyhoedd, a phwysigrwydd cael triniaeth gyflym i bobl pan fo'i hangen arnynt, mor agos â phosibl i'r cartref. Mae'n datblygu o hyd, gan arwain ymchwil arloesol, ac addasu wrth i'n hanghenion iechyd newid. Fodd bynnag, yn yr un modd â gweddill y DU, mae ein GIG o dan bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen, oherwydd costau cynyddol a disgwyliadau'r cyhoedd. Er mwyn diogelu'r gwasanaeth iechyd a chyflawni'r ddyletswydd ehangach sydd arno i wella iechyd, mae angen inni fynd ati'n gynt i arloesi ac i integreiddio, yn arbennig mewn perthynas â'r rhan allweddol y mae'n ei chwarae yn y system iechyd a gofal yn gyffredinol, a'i gyfraniad at greu mwy o ffyniant.

Mae nifer o'r cyflyrau y mae'r gwasanaeth iechyd yn eu trin yn ddyddiol yn rhai y gellid eu hosgoi, a dylai pawb chwarae rhan weithredol wrth reoli eu hiechyd eu hunain. Mae gan y llywodraeth hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth greu'r amodau sy'n gwella amgylcheddau lleol a'i gwneud yn haws i bobl roi'r gorau i smygu, i wneud mwy o ymarfer corff ac i fwyta deiet iach.

Mae GIG Cymru yn gyflogwr mawr ynddo'i hun – mae darparu gwasanaethau mewn cymunedau yn creu swyddi o ansawdd. Mae ganddo hefyd rôl ehangach i'w chwarae wrth gyflawni amcanion y llywodraeth, gan ddefnyddio ei raddfa ariannol, ei arbenigedd proffesiynol, a'r hanes sydd iddo ym maes arloesi i ysgogi gwaith ymchwil a datblygu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ochr yn ochr â'r llywodraeth, mae'r GIG, ysgolion, tai, awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol, y sector gwirfoddol a busnesau i gyd yn gallu helpu i greu amgylchedd lle mae iechyd da yn cael ei ystyried yn gaffaeliad naturiol i bawb. Byddwn yn cymryd camau i uno gwasanaethau, i'w gwreiddio mewn cymunedau, ac i weithio mewn ffordd ddi-dor i drin ac atal afiechyd.

Felly, y tri amcan yw: darparu gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd, hyrwyddo iechyd da a llesiant, a meithrin cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell.

Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol

Byddwn yn darparu triniaeth o ansawdd yn amserol ac yn hybu iechyd da, llesiant ac annibyniaeth, gan gydnabod bod angen i bawb chwarae rhan weithredol yn eu hiechyd eu hunain er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Mae newid mewn demograffeg gymdeithasol ynghyd â chyflyrau mwy cymhleth a difrifol yn gryn her ac yn golygu bod galwadau newydd a gwahanol ar wasanaethau iechyd. Mae angen inni edrych eto ar ein modelau triniaeth i wneud yn siŵr eu bod yn ymateb i anghenion cleifion ac yn cael eu rhoi ar waith yn y lleoliad cywir.

Mae GIG Cymru a'r system ofal yn arloesi'n barhaus, gyda thriniaethau a gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno drwy'r amser. Ceir hefyd nifer o enghreifftiau o arloesi ar lefel leol o ran integreiddio a darparu gwasanaethau. Ond er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mae angen cyflwyno modelau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol lle gellir gwella'r gofal a ddarperir yn sylweddol yn y tymor hir.

Mae triniaethau a thechnolegau newydd yn golygu bod modd trin cleifion yn agosach at eu cartrefi, gan osgoi'r angen i aros yn yr ysbyty.

Rhaid cyflymu'r newid hwn er mwyn sicrhau nad yw ysbytai ond yn trin cyflyrau nad oes modd eu trin mewn mannau eraill.

Bydd anghenion iechyd a gofal pobl yn amrywio'n fawr yn ystod eu bywydau, ac yn aml yn dod yn fwy cymhleth wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae cael y cymorth cywir pan fo'i angen yn hanfodol er mwyn byw'n annibynnol a heneiddio'n dda – ni ddylai fod o bwys pwys sy'n darparu'r gwasanaeth, cyn belled â bod y profiad a geir yn un di-dor yn gyffredinol.

Byddwn yn:

- parhau i wella ymhellach **safon, ansawdd ac amseroldeb triniaeth ar draws y GIG**, gan sicrhau mynediad at wasanaethau y mae ar bobl eu hangen, a chanlyniadau da i bawb o ran iechyd.
- **integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol** ymhellach, gan adeiladu ar waith yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- newid y modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal **drwy eu darparu o fewn cymunedau ac mewn mannau heblaw ysbytai**, gan newid y pwyslais o drin salwch i lesiant.
- buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o **Ganolfannau Iechyd a Gofal Cymunedol**, gan adeiladu ar lwyddiant y 64 clwstwr gofal sylfaenol ar draws Cymru, sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol eu hardaloedd lleol.
- sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn **rhannu cyllidebau ac yn comisiynu ar y cyd** er mwyn cynnig gwasanaeth gwirioneddol ddi-dor i'r rheini y mae arnynt ei angen.

Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb

Byddwn yn helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan chwalu'r rhwystrau y mae afiechyd yn eu creu o ran cyflogaeth a chyfleoedd, a mynd i'r afael â'r cylch o iechyd gwael ac anweithgarwch a drosglwyddir o un genhedlaeth i'r llall.

Mae iechyd da yn dechrau cyn i blentyn gael ei genhedlu, ac mae'n cael ei ddatblygu yn ystod beichiogrwydd, plentyndod a blaenlencyndod. Mae gormod o blant yn magu gormod o bwysau yn eu blynyddoedd cynnar. Felly, yn unol â'n nod o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo manteision deiet da a bywyd egniol ymhlith rhieni a phlant.

Mae gan ysgolion hefyd rôl hollbwysig i'w chwarae o ran annog ffyrdd iach o fyw a chynnwys gweithgarwch egniol mewn bywyd bob dydd. Bydd sicrhau ffyrdd iach o fyw o oedran cynnar, a'u cynnal yn ystod blaenlencyndod, yn arwain at fanteision a fydd yn para gydol oes. Bydd hefyd yn cyfrannu at system iechyd gynaliadwy yn y degawdau sydd i ddod.

Mae angen inni atal cynifer o bobl â phosibl rhag cael eu dal yn ôl gan afiechyd, sy'n amlach na pheidio yn cael ei achosi gan amgylchedd gwael ac arferion sy'n anodd rhoi'r gorau iddynt fel smygu, diffyg ymarfer corff, a deiet gwael. Byddwn yn parhau i ddarparu mwy o adnoddau i'r gwasanaeth iechyd, gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio i drin salwch. Fodd bynnag, bydd bywydau pobl yn well os awn ati i weithio gyda nhw i atal clefydau y gellir eu hosgoi, ac os awn i'r afael hefyd ag achosion cyflyrau cronig.

Dylai iechyd da yn ein henaint fod yn uchelgais y gall pob un ohonom ei wireddu. Wrth inni heneiddio, byddwn yn elwa ar fanteision dewisiadau ac amgylchedd iach drwy gydol ein bywydau, a bydd ein cymunedau'n elwa ar y cyfraniad gwerthfawr y gall pobl hŷn gweithgar ei wneud.

Byddwn yn:

- cefnogi ac yn annog **cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch corfforol pobl**, gan sicrhau bod asiantaethau sy'n ymwneud â hyrwyddo ffyrdd mwy iach o fyw yn cydweithio, a chan fanteisio ar adnoddau naturiol Cymru.
- datblygu **dulliau cymunedol arloesol o annog ffyrdd mwy egniol o fyw** a gwella maeth drwy'r Bond Llesiant.
- darparu **rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig** i gyflawni'n nod o alluogi pobl i deithio mewn ffyrdd mwy egniol, drwy gyfuno mathau gwahanol o drafnidiaeth gyda cherdded a beicio.
- cyflwyno **newid sylweddol i waith yn ymwneud ag ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus**, gyda thargedau a chanlyniadau mesuradwy, gan ganolbwyntio ar glefydau y gellir eu hosgoi a chodi ymwybyddiaeth o'r manteision sy'n gysylltiedig â ffyrdd mwy iach o fyw.
- gweithio gyda'r gymuned fusnes i **wella iechyd a llesiant gweithwyr** a helpu pobl i barhau mewn gwaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerbydol, a thrwy ddefnyddio'r contract economaidd.
- gweithio gyda GIG Cymru i ddarparu **dulliau digidol o gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal** a gwybodaeth, gan helpu i rymuso cleifion a gofalwyr i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant.
- cyflwyno **Cynllun Mewn Gwaith** a fyddai'n cynnig mynediad cyflym at ymyriadau gwaithganolog cynnar ar gyfer ystod o gyflyrau, gan helpu pobl i barhau i weithio neu fynd yn ôl i'r gwaith yn gynt ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch hirdymor.
- cytuno ar **flaenoriaethau newydd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru dros gyfnod o 10 mlynedd**, gan wneud hynny ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf am faich afiechyd.
- buddsoddi mewn cartrefi i'w **gwneud yn gynhesach ac i sicrhau eu bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon**, er mwyn gwella iechyd a lleihau costau tanwydd.

Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell

Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac yn darparu mwy o wasanaethau yn agosach i gartrefi pobl, gan gydnabod pwysigrwydd cymunedau a'r amgylchedd ehangach i iechyd da a llesiant.

Mae amrywiadau annerbyniol rhwng grwpiau a chymunedau gwahanol yng Nghymru o ran faint ohonynt sydd ag iechyd da, ac mae hynny'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau. Weithiau yr hyn sydd i gyfrif am afiechyd yw cysgod hirhoedlog y cyfnod diwydiannol, ond hefyd effaith heriol amodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gwael. Yn rhy aml o lawer, mae'n fwyaf anodd cael gafael ar wasanaethau yn yr ardaloedd hynny lle mae eu hangen fwyaf.

Mae gwasanaethau meddygon teulu a gofal sylfaenol yn rhan ganolog o'u cymunedau, ac yn borth i wasanaethau ehangach. Byddwn yn adeiladu ar y model arloesol o glystyrau gofal sylfaenol, lle gellir cael gafael ar ystod lawn o wasanaethau mewn un lleoliad. Byddwn yn datblygu'r gwaith hwn drwy deilwra ac addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cymunedau lleol penodol.

Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad yr amgylchedd at iechyd da. Mae ansawdd yr aer, cartrefi da, mynediad i fannau gwyrdd, a chynlluniau arbed ynni i gyd yn helpu i greu'r amodau cywir ar gyfer gwell iechyd a llesiant a mwy o weithgarwch corfforol.

Byddwn yn:

- gweithio i **fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**, a hynny o ran llesiant unigol a mynediad at wasanaethau.
- adeiladu ar y **clystyrau gofal sylfaenol sy'n cael eu sefydlu, gan weithio gyda darparwyr gwasanaethau** i deilwra gwasanaethau cyhoeddus i anghenion lleol, a gwella mynediad at ystod lawn o wasanaethau iechyd.
- cydgysylltu rhaglenni **cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol** er mwyn darparu llety a gofal nyrsio arloesol a fforddiadwy, gan adeiladu ar y Gronfa Gofal Integredig.
- **ehangu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned** drwy greu rolau newydd arloesol fel 'cysylltwyr cymunedol' sy'n cefnogi presgripsiynu cymdeithasol a phartneriaethau mwy ffurfiol gyda gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.
- **lleihau allyriadau** a gwneud gwelliannau hanfodol i ansawdd yr aer, drwy gynllunio, seilwaith, rheoleiddio a chyfathrebu am iechyd.

Uchelgeisiol ac yn Dysgu

Ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod. Os ydym am weld Cymru yn ffynnu, mae angen pobl greadigol, sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu, felly bydd ein haddysg o'r oedran cynharaf un yn sylfaen i oes o ddysgu a chyflawni.

Mae addysgu ysbrydoledig yn creu dysgwyr uchelgeisiol, gan eu helpu i amgyffred syniadau, gwybodaeth a phrofiadau a llywio eu hagwedd a'u disgwyliadau o ran yr hyn y gallant ei chyflawni a phwy y gallant fod.

Rhaid i'n system addysg herio'n dysgwyr gorau a hefyd sicrhau bod pawb yn cyflawni'r lefel hanfodol o sgiliau y gallant adeiladu arnynt yn ddiweddarach yn eu bywydau. I gyflawni hyn, rhaid cael amgylchedd yn y cartref sy'n cefnogi dysgu a datblygu o'r oedran cynharaf un.

Mae newidiadau technolegol byd-eang yn digwydd yn gyflymach nag erioed, sy'n golygu bod galw mawr am y gallu i ddysgu ac i addasu. Rhaid i'r sgiliau a ddysgir yn yr ysgol fod yn sylfaen gadarn a pharatoi pobl ifanc ar gyfer bywyd. Ond mae gormod o wahaniaeth o hyd yng nghyrrhaeddiad pobl ifanc wrth iddynt adael yr ysgol, sy'n golygu bod perygl i rai gael eu gadael ar ôl a gwastraffu eu potensial os nad oes ganddynt y sgiliau cywir.

Yn y tymor hwy, mae angen y cydbwysedd priodol o sgiliau a chyfluoedd ar economi Cymru. Ni ellir ond sicrhau hynny drwy bartneriaeth rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion a busnesau. Caiff yr ymchwil a'r arloesi gorau, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, eu harwain gan bobl sydd â ghorwelion eang a'u golygon ar y byd ehangach. Mae angen yr ysbryd uchelgeisiol ac entrepreneuriaidd cywir i droi'r ymchwil honno'n werth economaidd i Gymru.

Felly, tri amcan y strategaeth hon yw: helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial, gan ddatblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw, a rhoi'r sgiliau cywir i bawb fedru ymdopi â byd sy'n newid.

Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial

Byddwn yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bawb drwy gefnogi pobl o'u geni, a thrwy gydol eu haddysg a thu hwnt er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial naturiol.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn awgrymu mai'r blynyddoedd cynnar yw'r adeg bwysicaf ar gyfer dylanwadu ar gyfleoedd bywyd. Dyna pam mae hwn yn un o feysydd blaenoriaeth trawsbynciol y llywodraeth. Mae cael hyn yn iawn ar gyfer pob plentyn yn golygu ei fod yn cael y cyfle gorau i elwa ar addysg ffurfiol.

Dylai taith addysgol plentyn fod yn un o adegau mwyaf cyfoethog a gwerthfawr ei fywyd. Dylai plant adael yr ysgol yn meddu ar y sgiliau academaidd, personol a chymdeithasol y mae eu hangen arnynt i lwyddo yn eu bywydau.

Mae angen system addysg sy'n herio'r rheini sy'n cyflawni ar lefel uwch, ond nad yw'n gadael unrhyw blentyn ar ôl. Dylai fod gan bob plentyn sgiliau darllen, ysgrifennu a rhifedd wrth iddo adael addysg brif ffrwd. Mae athrawon yn chwarae rôl ganolog yn natblygiad plant, gan eu hysbrydoli a'u helpu i fod ar eu gorau. Yn aml, nhw yw'r cyntaf i sylwi ar broblemau, a rhaid ei gwneud yn haws iddynt fanteisio ar yr ystod ehangaf o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn gyflym wrth iddynt godi, i'w hatal rhag gwaethygu.

Yn y pen draw, mae angen inni fod yn hyderus bod gan blant yr agwedd a'r addysg y mae eu hangen arnynt ar gyfer gweddill eu bywydau, a bod gan athrawon yr hyblygrwydd i ymateb i'r ffyrdd gwahanol y mae plant yn dysgu.

Bydd ein system ysgolion yn seiliedig ar gwricwlwm newydd y bwriedir iddo roi profiad dysgu eang a chyfoethog i blant, a datblygu'r athrawon a'r arweinwyr gorau i roi'r cwricwlwm hwnnw ar waith yn llwyddiannus. Dyma'r sylfaen ar gyfer symud ymlaen i addysg a dysgu ôl-orfodol.

Byddwn yn:

- canolbwyntio'n ddiflino ar wella cyrhaeddiad pob disgybl, gan weddnewid y **safonau y mae'n rhaid i athrawon eu cyrraedd**, a lleihau'r gwahaniaeth rhwng ysgolion – yn enwedig y bwlch rhwng ysgolion sy'n perfformio'n dda a'r rheini nad ydynt yn perfformio cystal.
- sefydlu **Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol** i gefnogi arweinwyr ysgol y dyfodol a fydd yn allweddol i'n diwygiadau.
- sicrhau systemau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau **cyflenwad digonol o athrawon sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg**, a fydd yn allweddol i gyflawni'n targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg dros y degawdau nesaf.
- cyfoethogi'r profiad dysgu i bob plentyn drwy **newid ein cwricwlwm** er mwyn ymgorffori'r ystod gywir o bynciau a rhoi hyblygrwydd i athrawon, a meithrin cryfder cymeriad a llesiant pobl ifanc i'w helpu i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus.
- cefnogi pob dysgwr **i oresgyn yr hyn sy'n ei rwystro** rhag cyrraedd ei lawn botensial.
- cyflwyno model newydd o **Ganolfannau Dysgu Cymunedol** a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau, megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o amgylch y diwrnod ysgol.
- **darparu cyngor gyrfaoedd wedi'i dargedu er mwyn helpu pobl ifanc i gael swyddi**, yn enwedig mewn sectorau newydd a sectorau twf, a byddwn yn darparu cyfleoedd entrepreneuriaid hefyd. Byddwn yn mynd ati'n gynt i gyflwyno Gwasanaeth Cyfnewid newydd rhwng Byd Busnes ac Addysg, ynghyd â chyflwyno swyddogion gweithredol a fydd yn gweithio gydag ysgolion a cholegau yn y Cymoedd.
- **diwygio'n darpariaeth ddysgu ychwanegol** er mwyn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn canolbwyntio ar y dysgwyr, y rheini a'r gofawyr, a byddwn yn datblygu sgiliau'r gweithlu er mwyn darparu cymorth arbenigol effeithiol i ddysgwyr yn ystod pob cam o'u bywydau.

Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw

Byddwn yn ehangu gorwelion pobl ac yn codi eu dyheadau drwy greu diwylliant entrepreneuriaidd deinamig a sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddatblygu a chyflawni mwy drwy gydol eu bywydau.

Addysg yw'r sbardun sy'n lansio bywyd fel oedolyn. Bydd nifer yn ymuno â'r byd gwaith yn syth, ac eraill yn parhau mewn addysg sydd wedi'i theilwra i'r llwybr y maent am ei ddilyn, boed yn llwybr academaidd neu'n alwedigaethol. Rôl y llywodraeth yw cefnogi dyheadau pawb, a gweithio gyda busnesau a darparwyr addysg a sgiliau i gynnig yr ystod gywir o gyfleoedd i bawb.

Yn hanesyddol, mae addysg bellach yng Nghymru wedi cael ei ddarparu o fewn cymunedau, ac wedi darparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu ac i wireddu eu huchelgais. Heddiw, maent yn cynnig ystod ehangach nag erioed o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd, a hynny mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf o fewn cymunedau. Wrth i'r amrywiaeth o rolau y gall pobl ddisgwyl eu chwarae yn ystod eu bywyd gwaith gynyddu, bydd cysylltu cyfraniad y colegau ag anghenion pobl a busnesau yn bwysicach nag erioed.

Mae system addysg uwch fywiog yn hanfodol ar gyfer economi Cymru, gan roi'r lefel uchaf o sgiliau i unigolion, yn ogystal â datblygu gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus at y dyfodol. Mae prifysgolion Cymru yn mynd ati bob dydd i wneud gwaith ymchwil sy'n torri tir newydd, ac mae angen i'r gwaith hwnnw anelu fwyfwy at fasnacheiddio a thwf economaidd, gan gefnogi datblygiad ein sectorau allweddol, yn ogystal â diwallu anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn y dyfodol.

Elfen ganolog o'n huchelgais economaidd yw creu ac ehangu busnesau yng Nghymru. I gyflawni hynny, mae angen y bobl gywir sydd â'r ddawn a'r uchelgais entrepreneuriaidd cywir, ynghyd â'r amodau economaidd cywir a'r cymorth cywir gan y llywodraeth.

Byddwn yn:

- cyflwyno **system gynllunio strategol newydd ar gyfer addysg ôl-16**, a fydd yn cynllunio'r ddarpariaeth ar draws sectorau ac yn ymateb i anghenion economaidd Cymru.
- darparu **llwybrau datblygu cydlynol drwy a rhwng y sectorau addysg ôl-16 gwahanol**, fel bod llwybr dysgu'r unigolyn yn diwallu ei anghenion a'i ddyheadau yn hytrach na chael ei ddiffinio gan ffiniau artiffisial rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol.
- **cynyddu'n sylweddol y grantiau cynhaliadaeth** sydd ar gael i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, gan chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd i'r brifysgol a sicrhau bod grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr yn cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.
- dwyn ynghyd yr holl **gyllid ar gyfer ymchwil a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cyllid yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru**, gan gynnwys anghenion y sectorau economaidd rhanbarthol a chenedlaethol.
- sicrhau **cydweithio agosach rhwng diwydiant, ysgolion, prifysgolion, colegau a'r GIG** i godi uchelgais a chynyddu buddsoddiad mewn ymchwil, gan ddatblygu swyddi a thechnolegau'r dyfodol.
- defnyddio asedau Cymru i **ddatblygu dull o gynnal ymchwil iechyd a gofal sy'n seiliedig ar boblogaeth**, a hynny drwy Doeth am Iechyd Cymru.
- sicrhau bod ein cynlluniau cymorth busnes yn canolbwyntio ar **adeiladu diwylliant entrepreneuriaidd** yng Nghymru, a phennu **targedau ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n dechrau cwmnïau ar ôl gadael yr ysgol, coleg a phrifysgol** a thargedau ar gyfer cynaliadwyedd a thwf.

Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid

Byddwn yn galluogi pobl i ddatblygu eu sgiliau yn unol â'r newidiadau cyflym yn yr economi fyd-eang, er mwyn cadw Cymru yn gystadleuol a sicrhau cyflogaeth mewn byd ansicr.

Mae dysgu gydol oes yn bwysicach nag erioed ar gyfer ffyniant cenedlaethol a datblygiad unigolion. Mae dyfodiad y pedwerydd chwyldro diwydiannol yn golygu bod newidiadau mawr i'r economi, i'r amgylchedd ac i'n cymdeithas, a'r her wrth inni geisio sicrhau ein bod yn gydnerth yn y dyfodol yw rhoi Cymru mewn sefyllfa i elwa ar hynny. Felly, mae angen sicrhau bod digon o gyfleoedd yn yr economi newydd i gymryd lle'r rheini y gellid eu colli yn yr hen economi, a bod pobl yn meddu ar y sgiliau i fanteisio arnynt.

Bydd sgiliau digidol yn rhan arbennig o bwysig o'r economi newydd, ac yn ogystal â chynnwys codio ac agweddau eraill ar lythrennedd digidol yn ein cwricwlwm newydd, bydd angen mwy o gymorth ar gyfer pobl sydd eisoes mewn gwaith neu sy'n chwilio am waith i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn.

Mae cyflogwyr da yn chwilio am weithwyr medrus a byddant yn mynd ati o'u rhan eu hunain i fuddsoddi mewn datblygu ac addasu eu gweithlu. Mae gan y llywodraeth hefyd rôl hollbwysig i'w chwarae o ran darparu'r hyfforddiant y mae eu hangen ar bobl a'r economi.

Un o'r camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi blaenoriaethau twf rhanbarthol fydd ymateb yn well i'r anghenion sgiliau amrywiol ar draws Cymru. I addasu'n effeithiol i fyd sy'n prysur newid, mae angen inni sicrhau perthynas briodol rhwng busnesau, llywodraeth a sefydliadau addysgol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda chonsortia addysg rhanbarthol, prifysgolion, busnesau, diwydiant a'r trydydd sector **i ehangu'r rhwydwaith o glybiau codio ym mhob rhan o Gymru.**
- gwella'r **cymorth rydym yn ei roi i fyfyrwyr rhan-amser ac ôl-radd** er mwyn ei gwneud yn haws iddynt ddatblygu'r sgiliau lefel uchel y mae eu hangen ar ein heconomi.
- gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol **i ragweld anghenion sgiliau yn y dyfodol**, gan ganolbwyntio ar y sectorau twf â blaenoriaeth a nodwyd yn y rhanbarthau a sicrhau bod ein rhaglenni'n diwallu'r anghenion hynny.
- darparu **100,000 o brentisiaethau pob oed a fydd yn diwallu gofynion economaidd**, a byddwn yn eu defnyddio i wella'r lefelau cyffredinol o sgiliau yn y gweithle.
- **adolygu'r holl raglenni sgiliau a dysgu seiliedig ar waith sydd eisoes yn bodoli** er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion presennol yr economi ac yn gallu ymateb yn hyblyg i ofynion newydd.

Unedig a Chysylltiedig

Ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, a'n lle yn y byd. Rydym yn adeiladu'r cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu, ac inni ddod yn genedl fwyfwy hyderus ac allblyg.

Cryfder y cysylltiadau rhwng pobl, ac o fewn teuluoedd, cymdogaethau, gweithleoedd a chymunedau ehangach, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn a llesiant inni. Ni all y llywodraeth greu cymunedau, ond yn yr un modd â chyda'r economi, gallwn greu amgylchedd a fydd yn ehangu ac yn dyfnhau'r cysylltiadau hynny.

Mae cymunedau'n ffynnu os yw pobl yn gallu chwarae rhan lawn a gweithgar ynddynt i lywio eu hamgylchedd lleol, gan ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gall pobl gymryd nifer o wahanol rolau yn eu cymunedau, ac mae angen eu grymuso i wneud y pethau sydd wir yn gwneud gwahaniaeth.

Rydym eisiau creu Cymru sy'n wlad o gymunedau cysylltiedig, ac mae hynny'n golygu gwneud yn siŵr bod yr holl gysylltiadau angenrheidiol yn eu lle i'w tynnu ynghyd. Mae trafndiaeth a seilwaith digidol yn hanfodol er mwyn darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnom i barhau'n iach, i ddysgu, i gael gwaith ac i ddatblygu ffyniant.

Mae cysylltiadau Cymru â'r byd ehangach yr un mor bwysig, yn enwedig wrth inni fynd i'r afael ag ansicrwydd gadael yr UE. Bydd ein gallu i gystadlu mewn marchnadoedd newydd a chadw ein statws fel lle deniadol a chystadleuol i fuddsoddi a chynnal busnes ynddo yn dibynnu ar gryfder ein cysylltiadau tramor ac ar y berthynas rhyngom a gwledydd gwahanol.

Felly, y tri amcan ar gyfer y thema hon yw: datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth, darparu seilwaith modern a chysylltiedig, a hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth

Byddwn yn creu gwlad o gymunedau bywiog, croesawgar a chydlynol, sy'n ymfalchïo yn y presennol ac yn uchelgeisiol am y dyfodol – cenedl wirioneddol ddwyieithog sy'n dathlu ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hamrywiaeth unigryw.

Mae gan y cymunedau cryfaf bobl sy'n awyddus i gamu ymlaen i gyflawni pethau. Unigolion yw'r rhain nad ydynt yn gofyn am unrhyw wobwr fel arfer, heblaw gweld eu cymuned yn ffynnu. Rôl y llywodraeth yw cefnogi a grymuso'r rheini sydd am wneud gwahaniaeth, a sicrhau eu bod yn gallu gwireddu eu gweledigaeth.

Mae asedau cyhoeddus mewn cymunedau yn allweddol yn aml er mwyn rhoi mentrau lleol arloesol ar waith. Mae'r modd y cânt eu cynnig i grwpiau cymunedol yn gallu datgloi cyfleoedd i gymunedau ac arweinwyr wella ardaloedd lleol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda chymunedau **i helpu i gynnal cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd**, megis tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, manau gwyrdd, canolfannau celfyddydol a chanolfannau hamdden, gan helpu cymunedau i berchnogi asedau yn eu hardal leol.
- nodi cyfleoedd i fwy o bobl wirfoddoli, gan gynnwys gweithio gyda Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r trydydd sector i **gyflwyno rhaglen wirfoddoli unedig, Gwirfoddoli Cymru**.
- gweithio gyda chymunedau ar draws Cymru i **hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd bositif a chynhwysol**, gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ffordd systematig, a darparu fframwaith rheoleiddio cadarn.
- datblygu cymunedau'n **lleoedd sy'n cefnogi gwell iechyd a llesiant** gan ddefnyddio dulliau fel presgripsiynu cymdeithasol.
- sicrhau bod **ysgolion yn chwarae rôl fwy eang fel canolfannau cymunedol**, gan gynnig ystod ehangach o weithgareddau cymunedol yn ogystal ag addysg, er mwyn helpu i dynnu cymunedau, a'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen, at ei gilydd.
- meithrin **perthynas gynaliadwy â'r Sector Gwirfoddol**, yn seiliedig ar y canlyniadau y mae pob un ohonom am eu cyflawni ar gyfer cymunedau, ac ar y model cyllido cywir ar gyfer gwneud hynny.
- gweddnwid y modd y caiff y Gymraeg ei dysgu, ei haddysgu a'i hasesu er mwyn **sicrhau, yn y dyfodol, fod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol**.
- treialu **diwygiadau i'r broses ddemocrataidd**, gan foderneiddio'r broses etholiadol a chefnogi pleidleisiau ar gyfer pobl 16 oed a hŷn.
- gwella'r ffordd rydym yn **gweithio gyda grwpiau cymunedol a'r heddlu i ddatblygu cymunedau mwy diogel**.
- gweithio gyda chymunedau, y sector gwirfoddol a'r gwasanaethau lleol i **fynd i'r afael â bygythiad eithafiaeth a throseddau casineb** mewn cymunedau.

Darparu seilwaith modern a chysylltiedig

Byddwn yn buddsoddi yn y cysylltiadau y mae eu hangen arnom yn yr 21ain ganrif i ffynnu ac i gystadlu, gan gysylltu pobl, cymunedau, busnesau a gwasanaethau er mwyn ysgogi ffyniant.

Mae seilwaith modern ac uchel ei ansawdd yn allweddol er mwyn hwyluso cystadleurwydd a chynhyrchiant. Gall buddsoddiad sbarduno adfywio ehangach a helpu i greu cymunedau llewyrchus. Mae angen mynd ati i gynllunio'r buddsoddiad hwnnw mewn ffordd ddeallus a'i ddarparu'n effeithiol er mwyn iddo gael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae'n rhaglen ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn adlewyrchu sut yr ydym yn mynd ati i ymdrin â chryfderau rhanbarthol ac amcanion economaidd gwahanol. Mae rhai datblygiadau, megis band eang cyflym iawn a signal ffonau symudol cynhwysfawr, yn rhaglenni sydd o bwys cenedlaethol. Mewn meysydd eraill, mae yna brosiectau penodol sy'n helpu ac yn galluogi economïau rhanbarthol i dyfu.

Gall cysylltiadau digidol sy'n rhagweld anghenion y dyfodol ein helpu i newid ein patrymau gweithio, gan leihau tagfeydd, a chefnogi'n dyheadau o ran byw mewn ffordd sy'n defnyddio llai o garbon.

Mae'n hagweddau at drafnidiaeth, a'n disgwyliadau ohoni, yn debygol o newid mewn ffyrdd na allwn eu rhagweld ar hyn o bryd. O gofio daearyddiaeth Cymru ac anghenion cymunedau gwledig tenau eu poblogaeth, bydd ceir yn parhau'n bwysig, ond mae pwerau newydd dros fysiau a'r fasnachfaint rheilffyrdd yn golygu y byddwn yn gallu gweithio mewn ffordd fwy cydgyssylltiedig ar draws pob math o drafnidiaeth. Bydd hynny, yn ei dro, yn ein galluogi i leihau'n hallyriadau carbon, i hyrwyddo teithio llesol, ac i fanteisio i'r eithaf ar ein gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Byddwn yn:

- cyflwyno corff newydd, **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**, er mwyn cryfhau'r gwaith llywodraethu a'r gwaith cynllunio strategol sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mawr mewn seilwaith.
- yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff iechyd, cymdeithasau tai a phartneriaid allweddol eraill **gynllunio cartrefi, cyfleusterau a seilwaith newydd mewn ffordd gydgysylltiedig**.
- rhoi **un Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol** ar waith, gan helpu i wella holl seilwaith trafnidiaeth Cymru, a chan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion teithio a'r amcan o leihau allyriadau.
- creu **rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig**, a fydd yn cynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd a'r rhwydwaith bysiau, ac a fydd yn ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn garbon isel.
- darparu **Metro De Cymru**, a fydd yn ategu datblygiad economaidd y rhanbarth, ac yn lledaenu swyddi a ffyniant drwy ddarparu trafnidiaeth gyflymach, ac a fydd hefyd yn sicrhau bod pob datblygiad newydd ac arwyddocaol yn y rhanbarth o fewn cyrraedd hwylus i orsaf.
- parhau i ddatblygu **Metro Gogledd Cymru** a byddwn yn gwella trafnidiaeth mewn ffyrdd a fydd yn ei ategu.
- sicrhau **gwelliant sylweddol i'r M4 yng nghyffiniau Casnewydd**, yn ogystal â gwella'r A55, yr A40 yn y Gorllewin, a chefnffyrdd eraill.
- darparu **band eang cyflym a dibynadwy** yn y rhannau hynny o Gymru nad yw'r farchnad yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer.
- gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ac OFCOM i **ddarparu cysylltedd ffonau symudol y gellir ei ddefnyddio, ac sy'n ddibynadwy, ym mhob cwr o Gymru**.
- helpu pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol **drwy fuddsoddi mewn sgiliau digidol** a thrwy'n rhaglenni cymorth busnes.
- helpu i hyrwyddo **mwyl o ddefnydd o gerbydau allyriadau isel** drwy fuddsoddi mewn rhwydwaith o bwyntiau gwefru.

Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn parhau i droi ei golygon tuag allan a'u bod yn parhau i chwarae rhan lawn ar y llwyfan Ewropeaidd a'r llwyfan byd-eang, gan feithrin cysylltiadau newydd ym maes masnach a buddsoddi, a hyrwyddo'r agweddau gorau ar ein cenedl ledled y byd.

Mae ymadael â'r UE yn newid ein hamgylchedd rhyngwladol yn sylfaenol. Er nad oes unrhyw eglurder am y cytundeb terfynol, mae'r goblygiadau'n rhai pellgyrhaeddol a hirdymor. Mae brwydro dros y canlyniad gorau i Gymru yn un o brif flaenoriaethau'r llywodraeth hon.

Mae Cymru yn genedl â chysylltiadau byd-eang sy'n masnachu ledled y byd. Mae'n ffyniant fel cenedl yn dibynnu ar gysylltiadau rhyngwladol. Mae angen inni bellach weddnewid ein perfformiad ar y llwyfan rhyngwladol, gan adeiladu ar y berthynas agos yr ydym eisoes wedi'i meithrin â chenhedloedd a rhanbarthau ledled y byd. Bydd yr hediadau pellter hir sy'n cysylltu Cymru â'r Dwyrain Pell a thu hwnt yn ffordd bwysig o wella'n cysylltiadau rhyngwladol.

Twristiaeth sydd i gyfrif am gyfran gynyddol o'n cyfoeth, ac mae'n hanfodol bod Cymru yn cael ei hadnabod ledled y byd. Mae chwaraeon rhyngwladol, a rhagoriaeth ym maes diwylliant ac ymchwil, wedi helpu i ddiffinio'r Gymru fodern ym mhob cwr o'r byd. O fynd ati'n fwy egniol i hyrwyddo Cymru, gallwn fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd sydd ar gael inni, a helpu i sicrhau bod Cymru yn cadw'r manteision cystadleuol sydd ganddi ar hyn o bryd, ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae dwy ran o dair o allforion Cymru yn mynd i'r farchnad Ewropeaidd ar hyn o bryd, felly byddwn yn gwneud popeth posibl i gynnal perthynas â'r Farchnad Sengl Ewropeaidd sy'n caniatáu i gwmnïau gadw mynediad rhydd a dilyffethair.

Mae'n swyddfeydd rhyngwladol a'n cynghorwyr masnach yn cydweithio'n agos â busnesau o Gymru i'w helpu i gael troedle mewn marchnadoedd newydd yng Ngogledd America, y Dwyrain Canol, y Dwyrain Pell a mannau eraill.

Rydym yn ymadael â'r UE ond nid ydym yn gadael Ewrop. Mae'n rhaid inni gadw'n henw da mewn meysydd megis cynaliadwyedd, diwylliant ac ymchwil, a rhaid sicrhau bod Cymru fel cenedl yn parhau i gynnal cysylltiadau Ewropeaidd a byd-eang.

Byddwn yn:

- adeiladu ar frand llwyddiannus Cymru er mwyn **atgyfnerthu hunaniaeth gyfoes, rymus a deniadol Cymru** a fydd yn hyrwyddo'r genedl fel lle i gynnal busnes ac i astudio ynddo ac a fydd yn ysbrydoli pobl Cymru i fynd ati'n hyderus i greu eu dyfodol.
- **gweithio mewn ffordd strategol i ehangu'n swyddfeydd rhyngwladol**, gan wneud hynny ar sail asesiad o'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael i fusnesau o Gymru.
- moderneiddio'n presenoldeb digidol byd-eang drwy **borth digidol newydd ar cymru.com**, a fydd yn cynnwys rhwydwaith o wefannau rhyngwladol, integredig a fydd yn rhoi neges gyson wrth hyrwyddo Cymru.
- gweithio gyda'r Adran Masnach Ryngwladol i helpu'n hallforwyr i **ddod o hyd i farchnadoedd newydd ledled y byd**.
- parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i sicrhau mynediad rhydd a dilyffethair i Farchnad Sengl yr UE a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i **hyrwyddo buddiannau Cymru** wrth i'r Cytundebau rhyngwladol newydd ar Fasnach Rydd gael eu paratoi.
- datblygu ffyrdd newydd o **feithrin a chynnal partneriaethau Ewropeaidd** drwy fuddsoddi mewn rhwydweithiau a chydweithredu gyda gwledydd a rhanbarthau sy'n bartneriaid inni, yn enwedig cymdigion megis Iwerddon a Llydaw.

Pum Blaenoriaeth Drawsbynciol

Y Blynyddoedd Cynnar

Y Weledigaeth

Rydym am i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i wireddu eu llawn botensial a byw bywyd iach a ffyniannus a gwireddu eu dyheadau, gan chwarae rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at llyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mae cryn dystiolaeth i awgrymu mai cynnig y cymorth priodol i bob plentyn, yn enwedig plant sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig, yw'r ffordd orau o dorri'r cylch tlodi, ac o godi dyheadau a gwella cyrhaeddiad pawb. Dyna yw sail ein huchelgais ganolog, sef creu ffyniant i bawb, lleihau anghydraddoldeb, a hyrwyddo llesiant. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn fuddsoddiad yn yr economi ac yng ngweithlu'r dyfodol. Drwy fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, rydym yn fwy tebygol o lawer o atal plant rhag wynebu anawsterau yn nes ymlaen yn eu bywydau, pan fo'r anawsterau hynny'n gallu bod yn anos o lawer i'w datrys.

Plentyndod

Mae blynyddoedd cyntaf unrhyw blentyn yn hanfodol er mwyn gosod y seiliau ar gyfer llesiant gydol oes. Y blynyddoedd hynny sy'n penderfynu sut mae plant yn dod yn eu blaen yn yr ysgol, sut berthynas sydd rhyngddynt a phobl eraill, a'r blynyddoedd hynny hefyd sydd, yn y pen draw, yn dylanwadu ar y math o oedolion y byddan nhw. Mae cyfres o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gallu cael effaith ddinistriol tu hwnt ar eu datblygiad. Dyna pam y mae mor bwysig gosod seiliau llwyddiannus o'r oedran cynharaf un.

Rhianta

Mae rhianta hyderus, cadarnhaol a chadarn yn hanfodol er mwyn paratoi plant ar gyfer bywyd. Rhieni sy'n cael y dylanwad mwyaf ar eu plant, a hynny o bell ffordd, ond gall rhianta, ar brydiau, fod yn brofiad sy'n llethu pobl. Dyna pryd y mae angen i gymorth a chefnogaeth fod wrth law, i'w helpu i greu amgylchedd lle mae eu plant yn cael eu cefnogi a'u cyfoethogi. Sail ein gwaith yn hyn o beth yw'r ddealltwriaeth bod anghenion pobl yn amrywio, a bod yr anghenion hynny hefyd yn wahanol ar adegau gwahanol.

Anghydraddoldeb

Mae bylchau mawr o hyd rhwng perfformiad addysgol grwpiau gwahanol o blant, ac mae'r rheini sy'n dod o gefndiroedd mwy difreintiedig ac amddifadus yn tangyflawni'n gyson. Dyma'r plant a fydd yn elwa fwyaf ar raglen gymorth bendant a fydd yn rhoi'r dechrau gorau iddynt – rhywbeth a fydd yn fanteisiol iddynt weddill eu hoes.

Byddwn yn:

- adeiladu ar ein rhaglenni presennol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac yn creu **system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol a fydd yn rhoi lle canolog i anghenion unigryw pob plentyn.**
- sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn y cwricwlwm newydd yn **meithrin sgiliau craidd cryf, ac yn sicrhau bod ymwybyddiaeth am iechyd, llesiant a meithrin cryfder cymeriad yn rhan annatod** o fywydau plant o'r cyfnod cynharaf un.
- sicrhau **cysondeb o ran y modd y caiff darpariaeth cyn ysgol ei rheoleiddio a'i chyflenwi.**
- rhoi **cymorth cydlynol ac estynedig ar gyfer rhianta**, gan ddod â rhaglenni cymorth i deuluoedd ynghyd, a hoelio sylw ar rianta cadarnhaol ac ar ymyrryd yn gynnar.
- darparu **30 awr o addysg a gofal plant yn rhad ac am ddim** i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 blwydd oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, gan gynnig y ddarpariaeth mewn ffordd sy'n gweithio i rieni ac i blant.
- deddfu i **wahardd cosbi plant yn gorfforol.**
- creu **gwasanaethau cyhoeddus sydd ag ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod** ac sy'n hoelio mwy o sylw ar atal ac osgoi profiadau o'r fath ac ar feithrin cryfder cymeriad yn ein plant a'n pobl ifanc.
- treialu **ardaloedd Rhoi Plant yn Gyntaf, er mwyn helpu i greu gwasanaethau mwy integredig** ac er mwyn lleihau nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a meithrin cryfder cymeriad yn ein plant a'n pobl ifanc.

Tai

Y Weledigaeth

Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus. Cartrefi o ansawdd da yw congilfeini cymunedau da, ac maent yn rhoi sylfaen i unigolion a theuluoedd fedru ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Profwyd bod buddsoddi mewn gwella ansawdd tai yn lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill; yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cryn dystiolaeth sy'n dangos bod cysylltiadau rhwng cartrefi oer a thamp a chlefyd anadlol ac asthma. Gall y problemau iechyd hyn gyfrannu at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ogystal â chael effaith andwyol ar allu plant i ddysgu.

Darparu tai diogel a fforddiadwy yw'r ffordd orau i helpu unigolion agored i niwed i oresgyn problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae buddsoddi mewn tai, mewn creu amgylchedd lleol o ansawdd da, ac mewn defnyddio ynni'n effeithlon, yn dod â manteision economaidd sylweddol, yn creu swyddi ac yn creu cymunedau cryfach.

Digartrefedd

Mae'n annerbyniol mewn cymdeithas ffyniannus fod pobl yn gorfod cysgu ar y strydoedd. Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd digartrefedd, gan gydnabod bod gan waith i'w atal ran fawr i'w chwarae er mwyn osgoi'r dirywiad graddol sy'n ganlyniad i gollu cartref. Ond pan aiff pethau i'r pen, mae'n rhaid inni weithredu'n gyflym i gynnig darpariaeth a fydd yn atal pobl rhag syrthio ac a fydd yn eu helpu yn ôl ar eu traed cyn gynted ag y bo modd. Yn aml, mae gan y bobl hynny sy'n byw ar y stryd anghenion cymhleth ac mae angen inni ymateb i'r holl anghenion hynny, gan ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig a chydabod y gall bod yn ddigartref gael effaith ddifrifol ar allu pobl i gael cymorth.

Tai Fforddiadwy

Mae'r farchnad dai yng Nghymru, yn union fel y farchnad dai ar draws y DU, o dan bwysau mawr. Mae'r darlun o ran y ddarpariaeth sydd ar gael yn un cymhleth, ac mae'r heriau sy'n wynebu pobl yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar eu hincwm ac ar ble yng Nghymru y maent yn byw. O'r herwydd, mae gofyn i'r llywodraeth dargeddu ei hymyriadau mewn ffordd benodol, ac mae angen inni fanteisio

ar yr holl ysgogiadau sydd ar gael inni a chydweithio â chymdeithasau tai, awdurdodau lleol, adeiladwyr tai preifat a'r sector rhentu preifat i sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai, ac ymateb i anghenion gwahanol.

Byw'n Annibynnol

Mae gan dai da rôl hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod pobl yn parhau'n iach ac yn annibynnol wrth heneiddio. Mae galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hirach yn arwain at fanteision sylweddol o ran iechyd a hefyd at fanteision cymdeithasol ac economaidd pwysig. Mae angen y math priodol o dai arnom yn y manau priodol ac mae angen iddynt weddu i anghenion pobl. Bydd rhai ohonynt yn cael eu hadeiladau i'r pwrpas, a bydd anghenion pobl eraill yn cael eu diwallu drwy addasu cartrefi sy'n bodoli eisoes.

Byddwn yn:

- cyrraedd ein **targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd** erbyn 2021, ac yn trefnu bod **rhagor o gartrefi ar gael am rent fforddiadwy** ym mhob rhan o Gymru.
- ei **gwneud yn haws i bobl fforddio prynu cartref** drwy'r cynllun Cymorth i Brynu a'r cynllun Rhentu i Brynu ac yn sicrhau, drwy'r cynllun Cymorth Prynu, fod modd i bobl **prynu cartref mewn ardaloedd gwledig lle mae tai'n ddrud**.
- mynd ati'n gynt i ddarparu **cymorth i ddylunio tai mewn ffordd newydd ac arloesol** er mwyn ymateb i'r heriau, sy'n cynnwys yr angen dybryd am dai, tloidi tanwydd, y newid yn yr hinsawdd, a newid demograffig.
- dod â'r **Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael** i ben er mwyn diogelu tai rhent cymdeithasol ar gyfer pobl sydd mewn angen, a rhoi'r hyder i gynghorau a chymdeithasau tai adeiladu tai.
- gweithio gyda'r awdurdodau lleol i **ddechrau adeiladu tai cyngor yn gyflym ac ar raddfa fawr** am y tro cyntaf ers degawdau.
- sicrhau **gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n gorfod cysgu ar y strydoedd** drwy hoelio sylw ar eu hanghenion unigol o ran cymorth, a byddwn yn ymyrryd yn gynt ac mewn ffordd fwy effeithiol yn achos y bobl hynny sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- datgloi **potensial BBaChau i adeiladu cartrefi** ac yn sicrhau bod swyddi medrus ar gael yn lleol ym mhob cwr o Gymru.
- cymell **darparwyr tai i adeiladu cartrefi sy'n ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio** ac sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach.
- cysylltu **tai newydd â datblygiadau seilwaith mawr newydd**, er enghraifft, y Metro ac Wylfa Newydd.

Gofal Cymdeithasol

Y Weledigaeth

Rydym am weld sector gofal cymdeithasol cynaliadwy a safonol yng Nghymru, lle mae gwasanaethau ataliol ac integredig yn cael eu darparu yn y gymuned, gan helpu pobl i fyw bywydau annibynnol. Mae'r boblogaeth yn heneiddio, felly mae costau gofal, a'r galw amdano, yn rhwym o gynyddu. Mewn sector sy'n gallu ei chael yn anodd recriwtio a chadw gweithwyr, ein nod yw sicrhau bod y galw hwnnw'n cael ei ddiwallu. Rhaid i'r gofal fod yn fforddiadwy hefyd, ond mae angen sicrhau bod yr ansawdd yn gwella ar yr un pryd.

Mae ymyrryd a gweithredu'n gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd, ac i leihau effaith afiechyd corfforol ac afiechyd meddwl. Mae hefyd yn fodd i leihau camdriniaeth ac esgeulustod ac yn golygu nad oes angen gofal ar gynifer o bobl.

Plant

Dylai fod gan blant sydd mewn gofal le diogel i fyw, dylent gael addysg dda, cyswllt diogel â'u teuluoedd, a chael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Dylent fedru disgwyl i bobl wrando arnynt a dylent gael help llaw i feithrin perthynas gadarnhaol â phobl eraill. Mae angen inni sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cymaint o gymorth â phosibl, a'u bod yn cael yr un cymorth yn ystod eu blynyddoedd cynnar, a'r un cyfleoedd mewn bywyd, â phlant eraill.

Oedolion

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar oedolion agored i niwed i fanteisio ar wasanaethau, ac i weithio, hyfforddi, cael addysg neu wirfoddoli. Efallai y bydd angen cymorth arnynt i ddod o hyd i dai addas, yn ogystal â chymorth corfforol ac emosiynol, er mwyn iddynt fedru byw bywydau llawn. Yn benodol, mae angen cymorth dwys ar bobl ifanc sy'n gadael gofal yn ystod y cyfnod allweddol hwn o newid yn eu bywydau. Mae angen cymorth arnynt i feithrin y sgiliau priodol, i wella'u cyflogadwyedd, ac i gael gafael ar gartrefi diogel sy'n rhoi sicrwydd iddynt.

Pobl hŷn

Mae cynnal iechyd corfforol ac iechyd meddwl wrth fynd yn hŷn yn helpu pobl i barhau'n annibynnol, ac mae'n golygu bod llai o ohonynt yn dioddef ymdeimlad o fod ar wahân i gymdeithas. Mae'n helpu cymdeithas i elwa mwy ar y cyfraniad y gall pobl hŷn ei wneud, gan fanteisio ar yr wybodaeth a'r profiad sydd ganddynt. Bydd angen cymorth ar lawer

o bobl hŷn i fyw'n annibynnol, a'n nod yw eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl bellach, mae angen sector gofal arnom sy'n gynaliadwy ac sy'n trin unigolion ag urddas a pharch.

Byddwn yn:

- buddsoddi mewn **model newydd ac arloesol o ddarparu gofal yn y gymuned**, gan greu sector gofal mwy amrywiol a chynaliadwy yng Nghymru, a chydweithio â phartneriaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
- sefydlu **canolfannau lle bydd gwasanaethau cymorth, cyngor a thriniaeth yn cael eu cyd-leoli**, gan fanteisio ar dechnolegau newydd arloesol.
- helpu darparwyr gofal i **creu modelau gweithredu busnes cynaliadwy** yng nghalon ein cymunedau, gan gynnwys manteisio ar gyngor a chymorth oddi wrth Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru.
- datblygu **modelau cyllido arloesol** er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael yn y dyfodol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol.
- cydnabod a **chymell gofal o ansawdd uchel** drwy ddatblygu graddau arolygu a thrwy ddarparu cyllid ar gyfer hyfforddiant o dan y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer gweithwyr gofal dros 25 oed, gan annog darparwyr gofal i rannu arferion da ac i fod yn ganolfannau rhagoriaeth.
- **codi proffil a statws gweithwyr gofal cymdeithasol** drwy wella amodau cyflogaeth a thâl, fel bod gyrfa mewn gofal cymdeithasol yn datblygu'n ddewis cadarnhaol, a bod pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi mewn ffordd gyfrifol.
- cyflwyno **cymhwyster achrededig ar gyfer gofalwyr**.
- adeiladu rhagor o **ddatblygiadau tai a godir i'r pwrpas** ac a fyddai'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol mewn amgylchedd gwarchoddedig a gwarchodol, yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus hygrych.
- gwella **cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sydd mewn gofal**, gan roi lle canolog i'r plentyn, drwy sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau eraill, yn cydweithio.
- cryfhau gwasanaethau ar ffiniau gofal er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd a **lleihau'r niferoedd y mae angen darparu gofal ar eu cyfer a chynnig cymorth yn y cyfnod allweddol o newid ar ôl i blant sy'n gadael gofal gyrraedd 16 oed**, er mwyn iddynt fedru manteisio ar addysg bellach a dod o hyd i swyddi a thai.

Gwell Iechyd Meddwl

Y Weledigaeth

Rydym am sicrhau nad yw problemau iechyd meddwl yn atal pobl rhag cyrraedd eu potensial ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd problemau iechyd meddwl yn effeithio ar un o bob pedwar ohonom ar ryw adeg yn ystod ein bywydau. I lawer ohonom, bydd cymorth ein teuluoedd a'n cyfeillion yn ddigon.

Fodd bynnag, pan fo angen cymorth mwy dwys ar bobl, mae angen system sydd ar gael yn hwylus ac sy'n hoelio sylw ar adnabod a thrin y cyflwr cyn gynted ag y bo modd, cyn i faterion fynd i'r pen.

Plant

Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn arfogi plant a phobl ifanc â'r gallu i ymdopi â'r straen sy'n gysylltiedig â dod i oed mewn cymdeithas sy'n newid yn gyflym, lle mae bwlio ar-lein yn ffenomenon newydd sy'n peri cryn ofid. Mae nifer y plant sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl wedi dyblu bron yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n dangos bod mwy o ymwybyddiaeth o afiechyd meddwl, ond mae hefyd yn golygu bod gwasanaethau o dan straen. Mae ysgolion mewn sefyllfa unigryw i nodi problemau'n gynnar, i roi cymorth i blant ac, os yw hynny'n briodol, i gyfeirio plant at gymorth pellach yn gyflym. Dylid cydnabod yr effeithiau dwfn y mae problemau iechyd meddwl yn eu cael ar draws y cenedlaethau ac ar deuluoedd, a dylid cydnabod hefyd eu bod yn gallu arwain at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Oedolion

Mae llawer o bobl yn dioddef problemau iechyd meddwl ond maent yn teimlo na allant siarad yn agored amdanynt, na gofyn am gymorth. Unwaith eto, mae arwyddion positif o newid cymdeithasol yn hyn o beth, ond mae dal angen gwneud mwy i chwalu'r stigma sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl. Mae deugain y cant o'r rheini sy'n dioddef salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn nodi mai straen sy'n gyfrifol amdano ac mae'n arwain at fod yn absennol o'r gwaith am 24 diwrnod ar gyfartaledd. Mae problemau iechyd meddwl yn amrywio o ran eu difrifoldeb, a dylai'r ymatebion fod yn briodol, yn gymesur ac yn amserol bob amser. Dylent gynnwys dulliau megis presgripsiynu cymdeithasol, yn hytrach na thrin â meddyginiaethau yn unig.

Pobl Hŷn

Mae'n hollbwysig bod pobl hŷn yn dal ati i fod yn gorfforol egniol ac yn cadw'u meddwl yn effro er

mwyn lleihau'r risg o ddatblygu dementia, cyflyrau iechyd eraill, ac iselder oherwydd eu bod yn unig ac yn teimlo ar wahân. Mae cynnig cyfleoedd i bobl barhau'n actif o fudd i'n cymunedau yn ogystal â bod yn ffordd i helpu pobl i fwynhau iechyd meddwl da nes iddynt gyrraedd oedran mawr. Er hynny, gan fod rhagor o bobl yn byw'n hirach, bydd nifer yr achosion o ddementia yn parhau i godi. Yn ogystal â darparu gofal sy'n caniatáu i'r unigolyn gadw'i urddas, mae angen inni gydnabod yr effaith ar deuluoedd ac ar ofalwyr.

Byddwn yn:

- parhau â'n rhaglen i **wella gwasanaethau iechyd meddwl** i bawb yng Nghymru, gan wella ansawdd gwasanaethau a'u hintegreiddio'n well, mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol ar yr un pryd a sicrhau bod modd pontio'n well rhwng gwasanaethau gwahanol.
- adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud eisoes ac sydd wedi galluogi bron 140,000 o bobl i gael cymorth gan y gwasanaethau iechyd meddwl newydd ym maes gofal sylfaenol ers i'r Mesur Iechyd Meddwl gael ei gyflwyno, drwy wella **mynediad at therapiau seicolegol** yn y maes gofal sylfaenol ac yn y maes gofal eilaidd, a hynny ar gyfer plant ac oedolion fel ei gilydd.
- dylunio'n cwricwlwm a'n trefniadau asesu newydd ar gyfer ysgolion fel eu bod yn **rhoi sylw gwirioneddol ac ystyrion i lesiant**, ac yn meithrin cryfder meddyliol mewn plant a phobl ifanc.
- gwneud yn siŵr bod **athrawon yn cael y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i ymateb i blant sy'n profi anawsterau**, drwy sicrhau bod cysylltiadau a chydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau cwnsela ysgolion, seicolegwyr addysg, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau niwroddatblygiadol, a thrwy ddarparu cymorth dynodedig ar gyfer clystyrau o ysgolion.
- darparu **gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol** newydd yn y gymuned ac adolygu'r angen am gyfleusterau ar gyfer cleifion preswyl yng Nghymru, er mwyn atal iselder ôl-enedigol rhag gwaethygu a chaniatáu i famau feithrin perthynas gref a chlos gyda'u plentyn o'r dechrau un.
- helpu pobl â dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn iddynt fedru parhau i fod yn annibynnol drwy sicrhau bod **y gwasanaeth iechyd/yr awdurdod lleol yn cydweithio i 'greu tîm o amgylch y teulu'**.
- treialu cynllun i weld sut y gall **presgripsiynu cymdeithasol** helpu i drin cyflyrau iechyd meddwl.

Sgiliau a Chyflogadwyedd

Y Weledigaeth

Rydym yn awyddus i'n heconomi fod yn un sy'n seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, sy'n darparu'r adnoddau y mae eu hangen ar fusnesau i dyfu ac i arloesi, ac sy'n galluogi pobl i ffynnu. Dylai pob unigolyn feddu ar y sgiliau y mae eu hangen arno i ddod o hyd i swydd, a dylai gael y cyfle i feithrin sgiliau newydd drwy gydol ei fywyd gwaith.

Lefelau isel o sgiliau yw'r rhwystr mwyaf un sy'n ein hatal rhag creu'r economi a ddymunwn yng Nghymru, ac yn aml, dyma'r rhwystr mwyaf sy'n atal unigolion rhag dod o hyd i waith ystyrion. Os ydym am sicrhau gwell ffyniant i bawb, mae'n hollbwysig ein bod yn teilwra cymorth sgiliau fel ei fod yn diwallu anghenion unigolion, ond ei fod hefyd, ar yr un pryd, yn mynd i'r afael â rhwystrau eraill, megis iechyd gwael, trafnidiaeth a chyfrifoldebau gofalu.

Pobl Gyflogadwy

Mae sgiliau da yn ffactor allweddol sy'n penderfynu a yw pobl yn cael swyddi da ai peidio. Mae angen inni wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant y mae eu hangen arnynt, a hynny drwy gydol eu bywydau. Gall pobl ddilyn sawl trywydd er mwyn meithrin sgiliau uwch, er enghraifft, prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith, ac addysg bellach ac uwch. Mae angen i'r holl opsiynau hyn ategu ei gilydd er mwyn i bobl fedru dilyn y gyrfaoedd a ddymunant. Byddwn yn gweithio mewn ffordd newydd ym maes cyflogadwyedd drwy ddarparu gwasanaeth cymorth ac atgyfeirio di-dor ar gyfer pobl y mae angen iddynt ddatblygu sgiliau sylfaenol, ac ar gyfer y bobl hynny y mae angen iddynt wella'u sgiliau er mwyn dod o hyd i swydd neu symud ymlaen yn eu gyrfa.

Sgiliau ar gyfer Busnes

Mae sgiliau da yn datgloi twf ac arloesedd mewn busnesau, sy'n golygu bod angen iddynt fedru recriwtio gweithwyr â'r sgiliau iawn. Mae cyfrifoldeb ar fusnesau hefyd i fuddsoddi yn eu gweithlu er eu budd eu hunain, ac er budd eu gweithwyr a'r economi ehangach. Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cysylltiad hyd yn oed yn fwy clos rhwng yr hyfforddiant a ddarparwn ac anghenion economi Cymru.

Economi Gref

Mae sgiliau da yn golygu bod Cymru yn lle mwy deniadol ar gyfer buddsoddwyr sy'n dod â'r swyddi uwch eu safon a'r cyflogau uwch y mae eu hangen arnom. Mae sgiliau gwell a mwy trosglwyddadwy yn helpu pobl i symud yn haws rhwng swyddi, gan symud ymlaen o swyddi cyflog is lle nad oes fawr o ddyfodol. Po uchaf y lefelau sgiliau, y cryfaf y bydd

ein heconomi, a'r mwyaf abl i ddod drwyddi ar ôl cyfnodau economaidd anodd.

Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd yn rhaid inni ymdrechu'n galetach fyth i greu economi hyd yn oed yn fwy cystadleuol, ac mae lefelau uwch o sgiliau yn hollbwysig yn hynny o beth. Mae awtomatiaeth yn parhau'n fygythiad cynyddol i swyddi, ond y ffordd orau i'n hamddiffyn ein hunain fydd sicrhau bod pobl yn gallu gweithio'n well ac mewn ffordd fwy clyfar na pheiriannau a'u bod yn gallu datrys y problemau na all peiriannau fynd i'r afael â nhw.

Byddwn yn:

- darparu **cwricwlwm ysgolion sy'n diwallu anghenion unigolion ac economi ehangach Cymru o ran sgiliau.**
- sicrhau bod ein **darpariaeth meithrin sgiliau drwy ysgolion, addysg bellach ac uwch, a dysgu seiliedig ar waith, yn adlewyrchu anghenion presennol cyflogwyr** ac yn parhau i ddiwallu anghenion economi'r dyfodol.
- meithrin **cysylltiadau agosach rhwng** ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr **a busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, a'r GIG** fel bod modd rhagweld anghenion o ran sgiliau yn well yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- diwygio'n darpariaeth datblygu economaidd a meithrin sgiliau **er mwyn gweithio'n rhanbarthol**, gan adeiladu ar y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr.
- ad-drefnu'r arlwy presennol a chreu **rhaglen gyflogadwyedd newydd a symlach sy'n ymateb yn well** i anghenion unigolion a chyflogwyr.
- sefydlu **dull cyffredin o nodi anghenion yr unigolyn a fydd yn rhan o ffordd newydd o weithredu ym maes cyflogadwyedd**, gan adnabod yr unigolion hynny y mae arnynt angen cymorth cyflogaeth mor gynnar â phosibl a chan sicrhau bod y broses atgyfeirio yn un ddi-dor ac yn llai brawychus i bobl.
- darparu **gwasanaeth allgymorth cymunedol wedi'i deilwra** ar gyfer y bobl hynny sy'n wynebu nifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio.
- mynd ati yn y Cymoedd i dreialu **dull seiliedig ar leoedd o wella cyflogadwyedd**, gan gynnwys ehangu'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg er mwyn hoelio sylw ar ennyn diddordeb cyflogwyr mewn ardaloedd difreintiedig.
- gwella canlyniadau iechyd a chyflogaeth drwy sicrhau **bod cyflogwyr, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyflogaeth** yn cydweithio'n fwy effeithiol, gan gynnwys helpu gweithwyr cyflogedig sydd mewn perygl o ddioddef salwch hirdymor i barhau mewn gwaith drwy'n cynllun Mewn Gwaith.

